***Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.***

# Polisi Ffioedd

## Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y Polisi Ffioedd yw amlinellu'r dull gweithredu ar gyfer codi ffioedd ymrestru, cyrsiau a ffioedd atodol ar fyfyrwyr a'r rheiny sy'n defnyddio Gwasanaethau'r Coleg.

Yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Y Ddeddf), mae gan y Coleg ddyletswydd drwy Lywodraeth Cymru (LlC) i sicrhau:

1. darpariaeth o gyfleusterau priodol ar gyfer: addysg (heblaw am addysg uwch) sy'n addas i ofynion unigolyn sy'n hŷn na'r oedran gorfodol ond sydd heb gyrraedd ei ben-blwydd yn 19 oed ar 31 Awst neu cyn y dyddiad hwn yn unrhyw flwyddyn academaidd; a

2. darpariaeth o gyfleusterau rhesymol ar gyfer addysg (heblaw am addysg uwch) sy'n addas i ofynion unigolyn sydd wedi cael ei ben-blwydd yn 19 oed ac yn cael hyfforddiant cysylltiedig ac amser hamdden wedi'i drefnu fel y diffinnir yn y Ddeddf.

Wrth wneud hynny, bydd y Coleg yn ceisio darparu rhestr o'r ffioedd a chonsesiynau a fydd yn annog cyfranogiad a chynhwysiant mewn addysg a hyfforddiant, wrth sicrhau bod y Coleg yn diogelu ei asedau ac yn gwneud y defnydd gorau o gronfeydd cyhoeddus, a sicrhau diogelwch ariannol.

Mae'n ofynnol i'r Polisi Ffioedd hwn sicrhau bod dull gweithredu teg a chyson yn cael ei fabwysiadu i godi ffioedd ar ddysgwyr yn y Coleg.

## Datganiadau Polisi

Bydd y Polisi Ffioedd yn rhoi gwybod i staff, myfyrwyr ac unrhyw randdeiliaid eraill sut y caiff ffioedd cyrsiau ac ad-daliadau eu rheoli a'u cyflwyno. Bydd yn darparu ffordd o gyfathrebu sut mae amcanion cynlluniau strategol a gweithredol y Coleg yn ymwneud â chodi ffioedd.

## Amodau Ffioedd Cyffredinol – Perthnasol i'r Holl Ddysgwyr

- Bydd ffioedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Caiff ffioedd eu codi ar gyfer pob blwyddyn astudio, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen wybodaeth y cwrs hwnnw ar wefan y Coleg, ac ym mhrosbectws cyhoeddedig y Coleg.

- Gall methu â gwneud taliadau yn ôl y drefn arwain at eich hawl i ddefnyddio cyfleusterau'r Coleg (yn cynnwys y defnydd o TG) yn cael ei thynnu'n ôl, eich atal rhag parhau i'ch cam astudio nesaf, eich atal rhag mynychu dosbarthiadau, ac yn achos dysgwyr AU, eich atal rhag graddio.

- Rhaid talu'r ffioedd wrth ymrestru. Gellir talu'r ffioedd drwy'r dulliau talu canlynol:
  (a) Arian Parod
  (b) Cardiau debyd a chredyd
  (c) Taliadau debyd uniongyrchol (gweler adran 13)

(d) Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) ar ôl derbyn hysbysiad ariannol myfyriwr ar gyfer Cwrs Addysg Uwch. Os nad yw'r myfyriwr wedi cael cadarnhad o'i gefnogaeth ariannol ar yr adeg ymrestru, yna rhaid iddo ddarparu tystiolaeth o'i gais am fenthyciad gan CMC; byddai tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys llythyr/e-bost gan y CMC yn cadarnhau bod ei gais wedi dod i law
(e) Anfoneb gan gyflogwr, ynghyd â llythyr awdurdodi gan y cyflogwr. Rhaid i'r llythyr awdurdodi fod ar bapur â phennawd y Cyflogwr.

- Os bydd noddwr/cyflogwr yn gwrthod talu, bydd y myfyriwr yn atebol am unrhyw ffi sy'n weddill. Os nad yw'r noddwr yn bodloni'r anfoneb yn unol â thelerau talu arferol y Coleg, yna bydd anfoneb yn cael ei hanfon at y myfyriwr. Ni chynigir opsiwn talu fesul rhandaliadau ar gyfer cyrsiau Addysg Uwch.

- Bydd ffioedd yn cael eu casglu cyn dechrau'r cwrs. Ni fydd staff academaidd ynghlwm â'r broses o gasglu ffioedd nac yn ymdrin ag arian, ond bydd disgwyl iddynt drosglwyddo gwybodaeth mewn perthynas â ffioedd i ddysgwyr yn y dosbarthiadau. Yn ogystal, disgwylir i Benaethiaid Adran ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i Gyllid, megis gwybodaeth ynglŷn ag ymrestru myfyrwyr a chyrsiau wedi'u canslo.

- Os bydd dysgwr yn ymrestru ar gwrs ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs, bydd rhaid iddo dalu'r ffi lawn ar gyfer y cwrs.

- Ni ellir trosglwyddo ffioedd neu flaendaliadau o un tymor/blwyddyn i un arall, neu o un unigolyn i unigolyn arall.

- Bydd yr holl ymholiadau sy'n ymwneud â Debyd Uniongyrchol yn cael eu cyfeirio at yr Adran Gyllid.

- Mae gan y Coleg yr hawl i basio unrhyw ddebyd sy'n orddyledus i asiantaeth casglu dyledion trydydd parti.

- Bydd gofyn i unrhyw fyfyriwr sydd â dyled heb ei thalu o flynyddoedd blaenorol ac sy'n ceisio ail-ymrestru yn y Coleg wneud trefniadau i dalu'r ddyled sy'n ddyledus cyn cael ei dderbyn. Bydd unrhyw daliad a wneir gan y myfyriwr yn cael ei roi yn erbyn y ddyled hynaf yn gyntaf.

- Bydd angen i'r Swyddog Gweithredol ystyried a chymeradwyo unrhyw amgylchiadau eithriadol nad ydynt yn cael sylw yn y polisi hwn cyn y gwneir penderfyniad mewn perthynas â'r ffi i'w chodi.

- Ni fydd y ffi a godir ar ddysgwr yn cael ei hepgor nac ei haddasu o'r ffi a nodir yn y prosbectws cyhoeddedig ar gyfer y cwrs hwnnw, ac eithrio yn unol â'r dileadau ffioedd cytunedig a nodir yn y polisi hwn.

## Ffioedd Llawn Amser ac Eithriadau

<u>Ffioedd dysgwyr llawn amser</u>

Gweler crynodeb o arfer y Coleg mewn perthynas â ffioedd llawn amser yn y tabl isod. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar y tudalennau gwybodaeth am gyrsiau ar wefan y Coleg.

| | Ffi ymrestru | Ffi'r cwrs | Ffioedd ychwanegol [1] |
|---|---|---|---|
| **Llawn amser [2]** | Dim | Dim | Rhai cyrsiau |

[1] Mae ffioedd ychwanegol yn berthnasol i rai cyrsiau ar gyfer cyfarpar angenrheidiol sy'n cael eu darparu gan y coleg, defnydd stiwdio, neu danysgrifiadau aelodaeth proffesiynol. Mae rhai dysgwyr wedi'u heithrio rhag ffioedd ychwanegol, fel yr amlinellir isod. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cymorth Ariannol ar gyfer ffioedd ychwanegol ar gael (yn amodol ar argaeledd a chymhwysedd) drwy Gronfa Ariannol Wrth Gefn y Coleg.

[2] Nid oes gofyn i ddysgwyr llawn amser sydd wedi'u hymrestru ar gwrs rhan amser TGAU Cymraeg Iaith/Saesneg Iaith/Mathemateg neu Gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (Cymhwyso Rhif/Sgiliau Cyfathrebu) dalu unrhyw ffioedd ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau hyn. Fel arfer, ni chaniateir i ddysgwyr llawn amser ymrestru ar unrhyw gyrsiau rhan amser eraill.

Eithriadau i ffioedd dysgwyr llawn amser

Lle mae ffioedd yn daladwy fel arfer (gweler uchod), bydd yr eithriadau canlynol yn berthnasol:

| **Math o ffi** | **Eithriadau sydd ar gael** | **Tystiolaeth sydd ei hangen** |
|---|---|---|
| Ffi Ychwanegol | Ceiswyr lloches<br><br>Plant sy'n derbyn gofal | Prawf o statws<br><br>Prawf o statws |

## Ffioedd Rhan Amser ac Eithriadau

Ffioedd i ddysgwyr rhan amser

Gweler crynodeb o arfer y Coleg mewn perthynas â ffioedd rhan amser yn y tabl isod. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar dudalennau gwybodaeth gwefan y Coleg.

| | Ffi ymrestru | Ffi'r cwrs | Ffioedd ychwanegol [1] |
|---|---|---|---|
| **Rhan amser [2]** | £40 [3] | Rhai cyrsiau | Rhai cyrsiau |

[1] Mae ffioedd ychwanegol yn berthnasol i rai cyrsiau ar gyfer cyfarpar angenrheidiol sy'n cael eu darparu gan y coleg, defnydd stiwdio, ffioedd cofrestru arholiadau neu danysgrifiadau aelodaeth proffesiynol. Mae rhai dysgwyr wedi'u heithrio rhag ffioedd ychwanegol, fel yr amlinellir isod. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cymorth Ariannol ar gyfer ffioedd ychwanegol ar gael (yn amodol ar argaeledd a chymhwysedd) drwy Gronfa Ariannol Wrth Gefn y Coleg.

[2] Nid yw dysgwyr rhan amser sy'n dilyn nifer o gyrsiau rhan amser yn gallu hawlio statws dysgwr llawn amser.

[3] Mae'r ffi ymrestru i ddysgwyr rhan amser am bris gostyngol o £10 ar gyfer cyrsiau sy'n para 10 wythnos neu lai. Nid oes ffi ymrestru ar gyfer dysgwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau wedi'u hariannu drwy'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol.

<u>Eithriadau i ffioedd dysgwyr rhan amser</u>

| **Math o ffi** | **Eithriadau sydd ar gael** | **Tystiolaeth sydd ei hangen** |
|---|---|---|
| Ffi ymrestru | Dysgwyr sydd dros oedran addysg orfodol ond sydd heb gael eu pen-blwydd yn 19 oed ar 31 Awst 2024, neu cyn y dyddiad hwn<br><br>Ceiswyr lloches<br><br>Plant sy'n derbyn gofal<br><br>Oedolion cyflogedig sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ac yn ymgymryd â chyrsiau Cyfrif Dysgu Personol. | Prawf o oed<br><br>Prawf o statws<br><br>Prawf o statws<br><br>Prawf o gyflogaeth a thystiolaeth o fodloni'r meini prawf Cyfrif Dysgu Personol perthnasol. |
| Ffi'r cwrs | Dysgwyr sydd dros oedran addysg orfodol ond sydd heb gael eu pen-blwydd yn 19 oed ar 31 Awst 2024, neu cyn y dyddiad hwn<br><br>Ceiswyr lloches<br><br>Plant sy'n derbyn gofal<br><br>Dysgwyr sy'n ymgymryd â Sgiliau Sylfaenol, Sgiliau Hanfodol Cymru, neu gymwysterau ESOL hyd at ac yn cynnwys lefel 1.<br><br>Pobl ddi-waith <u>ac</u> sy'n hawlio budd-dal penodol<br><br>Pobl gyflogedig <u>ac</u> sy'n hawlio budd-dal penodol | Prawf o oed<br><br>Prawf o statws<br><br>Prawf o statws<br><br>Dim<br><br>Tystiolaeth o dderbyn un o'r budd-daliadau canlynol: Credyd Cynhwysol; Budd-dal Tai; Lwfans Ceisio Gwaith (JSA); Lwfans Gofalwyr; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA); Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)/ Lwfans Byw i'r Anabl (DLA). Nid yw'r budd-daliadau canlynol yn gymwys am eithriad ffioedd: Credyd Pensiwn; Budd-dal Plant; Cynllun |

| | | |
|---|---|---|
| | Oedolion cyflogedig sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ac yn ymgymryd â chyrsiau Cyfrif Dysgu Personol. | Gostyngiadau'r Dreth Gyngor; Tâl Salwch Statudol (ddim yn rhestr gyflawn).<br><br>Prawf o gyflogaeth a thystiolaeth o fodloni'r meini prawf Cyfrif Dysgu Personol perthnasol. |
| Ffioedd ychwanegol | Ceiswyr lloches<br><br>Plant sy'n derbyn gofal<br><br>Oedolion cyflogedig sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ac yn ymgymryd â chyrsiau Cyfrif Dysgu Personol. | Prawf o statws<br><br>Prawf o statws<br><br>Prawf o gyflogaeth a thystiolaeth o fodloni'r meini prawf Cyfrif Dysgu Personol perthnasol. |

## Cyrsiau Ar-lein

Pan mae'n berthnasol, rhaid talu ffioedd ar gyfer cyrsiau ar-lein cyn i'r cwrs ddechrau a chyn y darperir deunyddiau'r cwrs neu wybodaeth fewngofnodi.

## Trosglwyddo Rhwng Cyrsiau

Gall fod yn bosibl i ddysgwyr drosglwyddo o un cwrs i'r llall. Bydd trosglwyddiadau yn amodol ar gytundeb rhwng y ddwy adran berthnasol, a thalu unrhyw ffioedd ychwanegol. Ni ddylai'r cyfnod rhwng tynnu'n ôl o'r cwrs cychwynnol a dechrau'r cwrs newydd fod yn hirach na thair wythnos.

Os yw'r cwrs newydd yn werth mwy, rhaid talu'r gwahaniaeth cyn dechrau'r cwrs. Os yw'r cwrs newydd yn werth llai, yna ni fyddwn yn ad-dalu. Ni fydd yn bosibl trosglwyddo i gwrs sy'n dechrau fwy na 3 wythnos ar ôl tynnu'n ôl o'r cwrs cychwynnol; bydd gofyn i'r myfyriwr dynnu'n ôl ac ail-ymrestru, a bydd yn amodol ar y polisi ad-dalu sydd wedi'i nodi yn adran 12.

## Dysgwyr Addysg Bellach – Costau Ychwanegol

Mae rhestr o'r costau ychwanegol fesul cwrs ar gael a rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y rhain cyn ymrestru. Ni fyddwn yn ad-dalu costau ychwanegol os yw dysgwr yn tynnu'n ôl o'r Coleg.

## Argraffu

Bydd angen talu am gostau argraffu. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanolfannau Llwyddiant y Coleg.

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae gofyn i fyfyrwyr sy'n gymwys am drafnidiaeth gyhoeddus gymorthdaledig wneud cyfraniad ariannol tuag at gost hyn. Bydd blaendal na ellir ei ad-dalu yn daladwy cyn archebu'r pàs trafnidiaeth. Ni fyddwn yn ad-dalu costau trafnidiaeth gyhoeddus os yw dysgwr yn tynnu'n ôl o'r Coleg. Os byddwch yn colli pàs, bydd rhaid i chi dalu am un newydd; bydd angen talu cyn archebu pàs newydd. Dim ond un pàs newydd y cewch ei archebu pob blwyddyn.

## Cyrsiau Addysg Uwch

Ar gyfer cyrsiau Addysg Uwch (AU) sy'n gweithredu fel rhan o gytundeb breiniol gyda Phrifysgol bartner, mae'r ffioedd wedi'u gosod yn unol â ffioedd y sefydliad partner, a byddant yn dibynnu ar statws ffi y myfyriwr (Cartref neu Ryngwladol). Adolygir yr holl ffioedd yn flynyddol.

Ar gyfer cyrsiau AU a gynhelir yn uniongyrchol gan y Coleg, gosodir ffioedd yn unol â chyfradd y farchnad ar gyfer y cwrs, bydd yn dibynnu ar statws ffi y myfyriwr (Cartref neu Ryngwladol). Adolygir yr holl ffioedd yn flynyddol.

Codir ffioedd dysgu blynyddol ar gyfer pob cwrs AU ar fyfyrwyr, ac eithrio ar gyfer y rheiny a ariennir drwy Gyfrif Dysgu Personol neu gyllid arall gan y llywodraeth, a'r rheiny sy'n ffurfio fframwaith Prentisiaeth Uwch. Bydd ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau AU breiniol yn cael eu gosod mewn cytundeb â'r Brifysgol, sy'n dilysu'r rhaglen ac yn gyfrifol amdani'n gyffredinol. Gall myfyrwyr dalu eu ffioedd dysgu yn llawn neu'n rhannol gyda benthyciad ffioedd dysgu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn ddibynnol ar feini prawf penodol. Os nad yw myfyriwr yn gwneud cais am unrhyw fath o gefnogaeth ariannol tuag at ffioedd dysgu, neu'n dewis gadael yn ystod ei gwrs, bydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y ffioedd dysgu.

Rhaid i fyfyrwyr gytuno ar ddull talu ffioedd dysgu wrth ymrestru, ac adeg hynny bydd y Coleg yn cadarnhau'r gweithdrefnau a'r terfynau amser angenrheidiol ar gyfer talu.

Caiff ffioedd cyrsiau AU eu cyhoeddi ar y wefan, ar ôl i CCAUC gytuno ar gynlluniau ffioedd prifysgol bartner (pan mae hynny'n berthnasol).

## Cyllid Myfyrwyr -Benthyciad Dysgu

Gall myfyrwyr cymwys gael benthyciad gan Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) i dalu am ffioedd dysgu. Rhaid i'r myfyriwr wneud trefniadau gyda CMC cyn ymrestru ar ei raglen astudiaeth. Ceir manylion ynghylch cymhwysedd ar wefan CMC.

Rhaid i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth o'i gais am fenthyciad gan CMC wrth ymrestru. Byddai tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys llythyr dyfarniad ariannol yn manylu'r cyfraniad a delir gan CMC tuag at ffioedd y myfyriwr neu, mewn perthynas â cheisiadau hwyr, llythyr/e-bost gan CMC yn cadarnhau bod ei gais wedi dod i law. Rhaid i fyfyrwyr sydd â llythyr cadarnhad

bod eu cais wedi dod i law ddarparu llythyr dyfarniad ariannol cyn pen 60 diwrnod. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu bod y myfyriwr yn dod yn atebol am y ffi ddysgu lawn.

Os yw myfyrwyr yn penderfynu peidio â chymryd y gefnogaeth ffi lawn, neu nad ydynt yn gymwys ar ei chyfer, bydd angen talu'r ffioedd yn llawn cyn ymrestru, oni bai bod cynllun rhandaliadau wedi'i gytuno.  Rhaid gwneud ceisiadau ar gyfer talu mewn rhandaliadau o leiaf 30 diwrnod cyn ymrestru.

## Myfyrwyr Rhyngwladol

Rhaid i'r holl fyfyrwyr rhyngwladol gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol sydd ar gael o'r Swyddfa Ryngwladol.

## Ailsefyll Arholiadau

***TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg***

Gall dysgwyr llawn amser ailsefyll arholiadau TGAU mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg unwaith heb orfod talu'r ffi arholiad os ydynt eisoes wedi cyflawni TGAU gradd D yn y pwnc

y maent yn ei ailsefyll.  Ar gyfer ailsefyll unrhyw arholiadau ychwanegol, mae'r dysgwr yn gyfrifol am dalu'r ffioedd arholiadau yn unol â'r cyfraddau a godir gan y corff dyfarnu.

***Dysgwyr rhan amser***

Mae ffioedd arholiadau rhan amser wedi'u cynnwys yn ffi'r cwrs oni bai bod angen i'r dysgwr gofrestru gyda'r bwrdd yn uniongyrchol, ac os felly bydd gofyn i ddysgwyr dalu ffi'r arholiad i'r bwrdd arholi'n uniongyrchol.

Bydd ffioedd ailsefyll arholiadau yn daladwy gan ddysgwyr yn unol â'r cyfraddau a godir gan y Corff Dyfarnu.

***Ffioedd cofrestru hwyr***

Yn achos bob arholiad sy'n cael ei ailsefyll, bydd unrhyw ffioedd cofrestru hwyr a godir gan y corff dyfarnu yn daladwy gan ddysgwyr oni bai mai'r Coleg sydd ar fai am y cofrestriad hwyr.

## Ad-daliadau a Chanslo Cyrsiau

Bydd ad-daliadau yn ôl disgresiwn y Coleg a dim ond mewn amgylchiadau a nodir isod y byddant yn cael eu rhoi, fel rheol.

Bydd y Coleg yn ymdrechu i gynnal yr holl ddosbarthiadau yn brydlon ac yn unol â'r amserlen.  Os bydd gweithred natur neu drydydd parti yn ei gwneud hi'n ofynnol canslo neu ohirio dosbarthiadau i sicrhau diogelwch myfyrwyr a staff, ni fydd ad-daliadau yn cael eu gwneud.

***Cyrsiau Addysg Bellach (llawn a rhan amser)***

| | |
|---|---|
| Coleg wedi canslo'r Cwrs | Ad-daliad llawn |
| Myfyriwr yn canslo cyn dechrau'r cwrs | Ad-daliad ac eithrio tâl gweinyddu o £50 |
| Myfyriwr yn canslo ar ôl dechrau'r cwrs | Dim ad-daliad |

***Myfyrwyr rhyngwladol (ac eithrio Addysg Uwch)***

| | |
|---|---|
| Coleg yn canslo'r Cwrs | Ad-daliad llawn |
| Fisa wedi'i gwrthod | Ad-daliad ac eithrio ffi weinyddu o £500 |
| Myfyriwr yn tynnu'n ôl | Dim ad-daliad |

***Saesneg i Fyfyrwyr Rhyngwladol***

| | |
|---|---|
| Coleg yn canslo'r Cwrs | Ad-daliad llawn |
| Myfyriwr yn canslo'r cwrs ar ôl ymrestru | Dim ad-daliad |

***Cyrsiau masnachol rhan amser***

| | |
|---|---|
| Coleg yn canslo'r cwrs | Ad-daliad llawn |
| Ymgeisydd yn canslo 2 wythnos cyn dyddiad dechrau'r cwrs | Ad-daliad llawn |
| Ymgeisydd yn canslo 1 wythnos cyn dyddiad dechrau'r cwrs | Ad-daliad o 50% |
| Ymgeisydd yn canslo gyda llai nag 1 wythnos o rybudd | Dim ad-daliad |

***Cyrsiau Addysg Uwch***

Mae atebolrwydd myfyriwr am y ffioedd yn dibynnu ar ei statws ffi (Cartref neu Ryngwladol), rheoliadau ei brifysgol freiniol a'r dyddiad tynnu'n ôl. Bwriad y canlynol yw dangos yr atebolrwydd lleiaf posibl ond cynghorir myfyrwyr i wirio eu hatebolrwydd gwirioneddol gyda'r coleg/prifysgol freiniol:

| **Rheswm dros dynnu'n ôl** | **Atebolrwydd y myfyriwr am dalu'r ffioedd** |
|---|---|
| Coleg yn canslo'r cwrs | Dim |
| Myfyriwr yn tynnu'n ôl o fewn 2 wythnos o ddyddiad dechrau'r cwrs | Dim |
| Myfyriwr yn tynnu'n ôl ar ôl 2 wythnos ond yn ystod Tymor 1 | Lleiafswm o 25%<br>(noder: gwiriwch reoliadau prifysgolion unigol) |
| Myfyriwr yn tynnu'n ôl yn Nhymor 2 | Lleiafswm o 50%<br>(noder: gwiriwch reoliadau prifysgolion unigol) |
| Myfyriwr yn tynnu'n ôl yn Nhymor 3 | 100% |

Cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau ei fod wedi'i dynnu oddi ar y rhaglen. Gan fod y ffi a godir yn dibynnu ar y dyddiad mynychu diwethaf, dylid rhoi sylw penodol i'r dyddiad tynnu'n ôl.

Bydd myfyrwyr sy'n gohirio/tarfu ar eu hastudiaethau yr un mor atebol am eu ffioedd dysgu â myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl o'u cwrs (gweler y tabl uchod). Pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd i'w astudiaethau yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol, codir balans ffioedd y flwyddyn honno sydd ganddo'n weddill os yn berthnasol (felly yn y bôn, mi fydd yn talu gwerth un flwyddyn o ffioedd dysgu ar draws dwy flynedd), os na fydd newid yn ei gwricwlwm.
Ni fydd myfyrwyr sydd wedi cael benthyciad ffioedd dysgu yn gymwys am ad-daliad yn uniongyrchol gan y coleg. Bydd CCAF yn hysbysu CMC am atebolrwydd ffioedd dysgu'r myfyriwr a bydd CMC yn addasu atebolrwydd benthyciad ffioedd dysgu'r myfyriwr yn unol â hynny.

***Y broses ad-dalu***

Pan mae myfyriwr yn gymwys am ad-daliad yn unol â'r polisi hwn, bydd gofyn i'r myfyriwr gwblhau'r "Ffurflen Addasu Rhaglen Ddysgu", a bydd angen i Bennaeth Cwricwlwm yr Adran ei hawdurdodi cyn ei hanfon i'w phrosesu gan yr Adran Gyllid. Bydd yr holl ad-daliadau yn cael eu gwneud drwy daliad BACS a gallant gymryd hyd at bedair wythnos. Mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth o daliad cyn y prosesir ad-daliad.

## Rhandaliadau

Mae ffioedd cyrsiau dros £150 yn gymwys ar gyfer cynllun rhandaliadau. Mae angen 25% o ffi'r Cwrs fel blaendal wrth ymrestru a bydd angen tri thaliad debyd uniongyrchol misol o 25% wedi hynny.

Pan mae cwrs yn para llai na thri mis ac mae'r ffi yn fwy na £150, bydd rhandaliadau misol yn cael eu cynyddu er mwyn sicrhau bod y ffi lawn wedi'i thalu erbyn diwedd y cwrs.

Nid yw cynllun rhandaliadau ar gael i ddysgwyr sydd wedi'u tynnu'n ôl am beidio â thalu ffioedd.

### Archebu Ystafelloedd

Bydd taliadau ar gyfer archebu ystafelloedd yn cael eu gwneud naill ai ar adeg archebu neu drwy anfoneb.

## Meithrinfa Ddydd

Mae ffioedd ar gyfer y Feithrinfa Ddydd ar Heol Colcot a'r holl gostau cysylltiedig ar gael ar wahân gan Reolwr y Feithrinfa Ddydd.

Bydd ffioedd yn cael eu casglu'n fisol ar y 15fed o bob mis, yn cynnwys dwy wythnos ymlaen llaw a dwy wythnos fel ôl-daliad. Mae manylion llawn am gynlluniau talu ffioedd, newid nifer y dyddiau sydd eu hangen, a chynlluniau taleb ar gael gan Reolwr y Feithrinfa Ddydd.

## Addasu Ffioedd

Noder bod y Coleg yn cadw'r hawl i ddiwygio'r ffioedd a amlinellir yn y polisi hwn o bryd i'w gilydd.  Gwiriwch wefan y coleg am y ffioedd diweddaraf.

## Eithriadau

Dan amgylchiadau eithriadol, a chyda chymeradwyaeth ysgrifenedig gan aelod o Dîm Gweithredol y Coleg, mae gan y Coleg yr hawl i ddefnyddio ei ddisgresiwn wrth gymhwyso'r polisi hwn.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd yn cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r defnydd o'r gweithdrefnau, cefnogi staff i weithredu o fewn y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, arholiadau etc. yn cynnwys egwyddorion y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau nad yw darpariaeth y cwricwlwm yn mynd yn groes i ofynion na nod y polisi hwn.

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn gyfrifol am:

- Ddarparu hyfforddiant a datblygiad priodol i staff a dysgwyr ar bob cam o daith y dysgwr.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Fynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'r polisi hwn.
- Gweithio o fewn gofynion y polisi.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r polisi
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

**Deddfwriaeth a Chanllawiau**

Deddf Cydraddoldeb 2010

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

**Goblygiadau Iechyd a Diogelwch**

Mae goblygiadau Iechyd a Diogelwch i'r polisi hwn mewn perthynas â diogelwch yn y gweithle e.e. y salon neu'r gweithdy. Roedd angen i'r polisi hefyd ystyried y mater o ddiogelwch ac adnabod pawb ar draws y Coleg. Ystyriwyd yr agweddau hyn fel rhan o'r polisi hwn.

**Safonau'r Gymraeg**

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg h.y. ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

**Polisïau Cysylltiedig**

- Derbyniadau
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Bwlio ac Aflonyddu

**Gweithdrefnau Cysylltiedig**

- Gweithdrefnau ymrestru
- Gweithdrefnau cyllid
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Bwlio ac Aflonyddu.

**Cyfathrebu a Storio**

- Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
- Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
- Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

**Geirfa**

Dim

**Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

**Dyddiad cymeradwyo:** **19eg Mehefin 2024** **Rheolwr Cyfrifol:** **Rheolwr Cyllid y Grŵp**



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 12 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf** | 19/06/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 19/06/2026 |

**Cymeradwywyd gan:** **Swyddog Gweithredol**

**Arweinydd Gweithredol:** **Y Prif Swyddog Gweithredu**

**Dyddiad adolygu:** **19eg Mehefin 2025**

**Hygyrch i Fyfyrwyr:** **Ydy**



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 12 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf** | 19/06/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 19/06/2026 |